# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 14 Tachwedd 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5364

## 170

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.09

Gofynnwyd y 3 chwestiwn

## 4 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.21

Gwnaeth **Vikki Howells** ddatganiad am Ddiwrnod Mentrau Cymdeithasol 2018 (15 Tachwedd 2018)

Gwnaeth **Jack Sargeant** ddatganiad yn dathlu bywyd un o drigolion dewraf Shotton – Harry Weale VC

## Cynnig i ethol Aelod i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 15.23

**NDM6869** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.9, yn penodi David Rowlands (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.23

**NDM6868** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol David Rowlands (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod amgen o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Michelle Brown (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20

Dechreuodd yr eitem am 15.25

**NDM6861** – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20, fel y pennir yn Nhabl 1 o "Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2019-20", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd 2018 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei Ymchwiliad i baratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.42

**NDM6864** – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 'Paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Medi 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Lles Anifeiliaid

Dechreuodd yr eitem am 16.40

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6863** – Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai Cymru fod yn arweinydd byd mewn lles anifeiliaid.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwneud gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng yn orfodol yn holl ladd-dai Cymru; a

b) gwahardd yr arfer o ladd anifeiliaid heb eu stynio yn holl ladd-dai Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i wahardd allforio anifeiliaid byw at ddibenion eu magu a'u lladd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 3 | 0 | 49 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ar ôl pwynt 1, dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod gan y DU rai o'r safonau lles anifeiliaid uchaf yn y byd.

Yn nodi'r ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU ar agweddau ar les anifeiliaid wrth eu cludo fel bod y drefn reoleiddio yn adlewyrchu gwybodaeth wyddonol a milfeddygol unwaith y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn croesawu'r penderfyniadau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i gynyddu'r dedfrydau uchaf am greulondeb anifeiliaid i bum mlynedd a chyflwyno teledu cylch cyfyng gorfodol mewn lladd-dai yn Lloegr.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwneud gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng yn orfodol mewn lladd-dai ledled Cymru;

b) archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cyfraith Lucy a gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a'r holl werthwyr trydydd parti masnachol yng Nghymru; ac

c) cynyddu cymorth ar gyfer lladd-dai bach a chanolig i sicrhau bod ffermwyr yn gallu prosesu stoc mor lleol â phosibl.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 1 | 38 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Julie James (Gorllewin Abertawe)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd o ran:

a) cyflwyno grant busnesau bwyd ar gyfer lladd-dai bach a chanolig fel bod modd iddynt osod teledu cylch cyfyng a hefyd wneud gwelliannau busnes eraill;

b) cynnwys safonau cadarn o ran lles ac iechyd anifeiliaid mewn gwaith er mwyn diffinio'r Gwerthoedd Brand Cynaliadwy i'r diwydiant bwyd amaeth.

c) sicrhau bod unrhyw adolygiad o ddeddfwriaeth ym maes labelu bwyd sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yn nodi nad oes unrhyw ladd heb stynio yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

Yn nodi mai dymuniad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu lladd mor agos ag y bo'n ymarferol at eu pwynt cynhyrchu.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 4 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM6863** - Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai Cymru fod yn arweinydd byd mewn lles anifeiliaid.

2. Yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd o ran:

a) cyflwyno grant busnesau bwyd ar gyfer lladd-dai bach a chanolig fel bod modd iddynt osod teledu cylch cyfyng a hefyd wneud gwelliannau busnes eraill;

b) cynnwys safonau cadarn o ran lles ac iechyd anifeiliaid mewn gwaith er mwyn diffinio'r Gwerthoedd Brand Cynaliadwy i'r diwydiant bwyd amaeth.

c) sicrhau bod unrhyw adolygiad o ddeddfwriaeth ym maes labelu bwyd sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid yn seiliedig ar dystiolaeth.

3. Yn nodi nad oes unrhyw ladd heb stynio yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

4. Yn nodi mai dymuniad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu lladd mor agos ag y bo'n ymarferol at eu pwynt cynhyrchu.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 3 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## Datganiad gan y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 17.17

Cyhoeddodd y Llywydd y caiff Darren Millar ofyn i'r Cynulliad gytuno i gyflwyno Bil Aelod ar Bil Hawliau Pobl Hŷn.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.18

## 10 Dadl Fer

Ni chyflwynwyd testun

Daeth y cyfarfod i ben am 17.20

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018**